



Llwybr Natur

Y GOGARTH | GREAT ORME

Nature Trail

CYFLWYNIAD

Mae'r Gogarth yn bentir calchfaen trawiadol, credir ei fod dros 350 miliwn o flynyddoedd oed. Mae'n cynnal amrywiaeth eang o flodau ac anifeiliaid, sy'n bodoli yn unig oherwydd yr amrywiaeth o gynefinoedd ar y Gogarth. Mae'r cynefinoedd yma'n amrywio o rostir cyfoethog i glogwyni mor, glaswelltir calchfaen a choetiroedd. Mae rhai'r o'r rhywogaethau a geir ar y Gogarth yn brin iawn fel y brân goesgoch, ac ni ellir dod o hyd i rywogaethau eraill yn unman arall, fel glöyn byw'r glesyn serenngog.



Mae daeareg y Gogarth yn bwysig iawn ac mae'n effeithio ar y cynefinoedd a geir ar y pentir. Yn ychwanegol i'r blodau ac anifeiliaid unigryw a geir yma, mae'n hawdd deall pam fo'r rhan fwyaf o'r Gogarth wedi ei ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Hefyd mae'n cael ei reoli fel Parc Gwledig a Gwarchodfa Natur Leol gan Wasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sicrhau bod yr holl elfennau naturiol hyn yn gallu cydfyw yn llwyddiannus.

Mae'r llwybr natur yn caniatáu i chi weld a dysgu mwy am rai o'r rhywogaethau sy'n cartrefu ar y Gogarth, a'r cynefinoedd maent yn byw ynddynt. Tra eich bod yn cerdded y llwybr meddylwch am y camau mae'n rhaid i ni eu cymryd i ddiogelu a chadw'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ar gyfer cenedlaethau i ddod, a'r rhan bwysig sydd gennym i gyd i'w chwarae yn hyn.

SUT MAE DOD YMA

Trên: I gael rhagor o wybodaeth am drenau i Llandudno, ffoniwch y llinell ymholiadau genedlaethol ar 08457 48 49 50 neu ewch i www.nationalrail.co.uk

Bws: Mae teithiau i Gopa'r Gogarth yn newid yn ôl adeg y flwyddyn. I gael gwybodaeth ar wasanaethau ffoniwch Traveline Cymru ar 0871 200 22 33 neu ewch i www.traveline-cymru.info

Hefyd gallwch ffonio'r Linell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus ar 01492 575 412.

Tram: Mae Tramffordd Fictoriaidd y Gogarth yn rhedeg o droed y Gogarth i'r copa rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd. I gael gwybodaeth ar yr amserlen ffoniwch 01492 879 306 neu ewch i www.greatormetramway.co.uk

Car: Dilynwch yr A470 i ganol Llandudno. Ewch i fyny'r brif stryd, Mostyn Street, trowch i'r dde yn y gylchfan a dilynwch y ffordd heibio i'r mynediad i'r pier a Gwesty'r Grand i Gylchdro'r Gogarth. Mae toll yn daladwy ar y ffordd hon. Dilynwch yr arwyddion i'r copa lle mae maes parcio talu ac arddangos a Chanolfan Ymwelwyr.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380 2010
 © Intermap Technologies Inc. Cedwir pob hawl DCON100 2010
 © Crown copyright. All rights reserved.
 Conwy County Borough Council 100023380 2010
 © Intermap Technologies Inc. All rights reserved DCON100 2010

CONWY
 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
 COUNTY BOROUGH COUNCIL

Gwybodaeth Teithiau Cerdded

Pellteroedd:

Llwybr A – 3.5 milltir (5.5 cilomedr)

Llwybr B – 4 milltir (6.5 cilomedr)

Amseroedd:

Llwybr A – 2½ awr

Llwybr B – 3 awr

Mae pob amser a phellter wedi ei amcangyfrif

Gwybodaeth am Gyfeirbwyntiau:

Mae'r cyfeirbwyntiau yn nodi'r llwybr ac mae disgiau wedi eu rhifo yn dangos yr arosfannau ar y llwybr natur. Mae llun o'r ddau isod.



Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda

Parchwch • Diogelwch
• Mwynhewch

Tirwedd: Mae'r tir yn anwastad gyda bryniau serth ar lwybrau a thraciau glaswelltog. Hefyd, arhoswch ar y palmant wrth gerdded y darn o gwmpas Cylchdro'r Gogarth oherwydd gall y ffordd hon fod yn brysur iawn yn ystod misoedd yr haf.

Cŵn: Cadwch gŵn dan reolaeth bob amser oherwydd mae anifeiliaid sy'n pori ar y pentir.

Map: Hamdden Awyr Agored 17.

Cyfeirnod grid dechrau a gorffen:

Maes Parcio'r Gwylfryn SH 765 833.

Lluniaeth: Mae'r rhain ar gael yn Summit Complex Café neu yn Rest and BeThankful Café ar Gylchdro'r Gogarth. Mae'r ddau ar agor bob dydd rhwng y Pasg a diwedd mis Hydref, ac ar rai penwythnosau y tu allan i'r tymor.

BYDDWCH YN BAROD. Sicrhewch eich bod yn gwisgo esgidiau sy'n addas ar gyfer tir anwastad a garw, a byddwch yn barod ar gyfer pob tywydd. Dewch â dillad cynnes, sy'n dal dŵr hyd yn oed ar ddiwrnodau cynnes oherwydd gall y tywydd ar y copa fod yn wahanol iawn i'r tywydd yn Llandudno.

Gwiriwch y tywydd yn: www.metoffice.gov.uk

Byddwch yn ymwybodol o newidiadau yn y tywydd.

Llwybr A

Dechreuwch o'r maes parcio ar y copa. Ewch allan o brif fynedfa'r maes parcio a chroeswch y ffordd, gan gadw'r orsaf dramiau y tu ôl i chi. Byddwch yn gweld postyn cychwyn pren gyda thop melyn yn dangos lle mae'r llwybr natur yn dechrau. Gan gadw'r wal gerrig i'r dde, dilynwch y cyfeirbwynt i'r arhosfan cyntaf.



Clochdar y Cerrig

ARHOSFAN 1:

Rydych yn sefyll ger ardal o rostir sy'n tyfu ar bridd a adawyd yma dros 12,000 mlynedd yn ôl. Ar ddiwedd yr oes îa diwethaf symudodd llenni o rew ar draws y Gogarth, gan grafu'r pridd a cherrig o un lle a'u gadael mewn lle arall fel oedd yr ia yntoddi. Mae hyn wedi gadael mannau dwfn ar bridd ar y Gogarth, sy'n caniatáu i'r rostir ffynnu.

Mae'r rostir yn darparu bwyd a chysgod i adar fel clochdar y cerrig; gellir adnabod yr aderyn lliwgar hwn yn ôl ei gân unigryw. Mae hon yn gyfres o glaciau sy'n debyg i ddwy garreg yn cael eu taro gyda'i gilydd.

Yma rydych yn gallu gweld mannau o rostir sydd wedi eu torri. Gwneir hyn bob gaeaf i annog planhigion rostir newydd i dyfu ar y tir gwag, yn lle planhigion sydd yn dirywio neu'n marw.



A wyddoch chi?

Mae'r rostir hefyd yn gartref i ymlusgiaid, fel dallnadroedd a madfalod.

Parhewch rownd i gornel y wal. Ewch ymlaen i ddilyn y wal, eto gyda'r wal i'r dde i chi, nes eich bod yn cyrraedd dau gyfeirbwynt. Maent yn dangos yr hen lwybr a defnyddiwyd gan y mynaich a oedd yn byw yn yr abaty sydd rŵan yn adfeilion ar Forfa'r Gorllewin dros 500 mlynedd yn ôl. Hanner ffordd i lawr y Ffordd Las byddwch yn cyrraedd Arhosfan 2.



Ffordd Las

ARHOSFAN 2:

Rydych rŵan wedi eich amgylchynu gan laswelltir calchfaen, sef y cynefin mwyaf cyffredin ar y pentir. Mae mwy na 400 math o flodau gwyllt, rhai ohonynt yn brin iawn. Mae'r blodau gwyllt sy'n tyfu ar y Gogarth yn aml yn fach oherwydd mae dŵr yn gallu bod yn brin iawn ac mae llawer o'r glaswelltir yn agored i dywydd garw. Trwy dyfu'n agosach at y ddaear mae'r blodau hyn yn arbed dŵr ac yn gallu cysgodi rhag yr elfennau.

O fis Mehefin ymlaen byddwch yn gallu gweld cor-roсын cyffredin yn gorchuddio'r ddaear gyda'i flodau melyn bach a dail blewog ochr yn ochr â blodau piws y feddyges las. Er ei fod yn demtasiwn, peidiwch â chasglu'r blodau gwyllt hyn; gadewch nhw i eraill eu mwynhau.



A wyddoch chi?

Roedd meddygon hynafol yn credu bod blodau coch y Gwyddlwyn Cyffredin yn dynodi gwaed ac am ganrifoedd defnyddiwyd y planhigyn i drin anafiadau a llosgiadau.

Parhewch i waelod y llwybr a chroeswch y ffordd yn ofalus. Trowch i'r dde a pharhewch i fyny'r bryn ar hyd Marine Drive, a pharhewch i gerdded nes eich bod yn cyrraedd cysgodfa fach gyda seddi.



Crec yr eithin

ARHOSFAN 3:

Mae'r gysgodfa yn lle da i orffwys ac edmygu'r arfordir godidog. O dan y wal mae ardal arall o brysg, sy'n hoff le gyr geifr Cashmir y Gogarth i gael cysgod. Mae'n gyffrous eu gwyllo yn ystod yr hydref pan fo'r bychod yn cystadlu am sylw'r geifr benyw. Bydd y geifr bach yn cael eu geni yn y gwanwyn ac yn aml mae'r geifr benyw yn gadael y rhai bach wedi eu cuddio yn y llwyni tra eu bod yn bwyta. Os ydych ar y Gogarth yn y gwanwyn ac yn gweld myn gafr ar ei ben ei hun GADEWCH LONYDD IDDO, oherwydd mae'r fam yn gwybod lle mae o.

Mae'r ardal hon hefyd yn bwysig iawn ar gyfer adar fel mwyalchen y mynydd a chrec yr eithin. Yn ystod yr hydref maent yn dechrau ar eu taith i Affrica lle byddent yn treulio'r gaef. Mae'r adar yn defnyddio'r ddraenen wen a'r eithin sydd yma i gysgodi, gorffwys a bwyta cyn parhau â'u taith epig.

Ewch yn ôl at y bwch yn y wal, croeswch y ffordd yn ofalus a cherddwch i fyny'r ffordd goncrit o'ch blaen. Chwiliwch am arwydd cyfeirio tua 60 medr i'r dde. Dilynwch y saeth tua'r ardal gyda ffens o'i chwmpas.



Balmant Calchfaen

ARHOSFAN 5:

Mae'r ardal galchfaen sydd o'ch cwmpas yn cael ei alw'n balmant calchfaen a daeth i'r wyneb gyntaf yn ystod yr oes iâ diwethaf. Symudodd llenni o rew ar draws y tir a chrafu'r pridd i ffwrdd i ddangos y calchfaen oddi tano. Dros y blynyddoedd mae glaw, eira a rhew wedi toddi darnau mwy meddal y calchfaen ac wedi creu craciau dwfn a elwir yn reiciau. Mae'r greiciau hyn yn darparu cysgod a dŵr ar gyfer planhigion mae'n well ganddynt amgylcheddau tamp a thywyll fel clust yr arth, blodyn y gwynt a bresych y cŵn.

Mae'r ardal fach hon o balmant calchfaen wedi'i hamgylchynu â ffens i weld pa blanhigion a llwyni sy'n tyfu pan fo defaid a geifr yn cael eu hatal rhag pori yma.

Ewch ymlaen o gwmpas y maes parcio ar y chwith. Dilynwch yr arwydd cyfeirio i fyny at gornel y wal. Os ydych yn dymuno gwneud Llwybr A yn unig, cadwch y wal ar y chwith a dilynwch o'n ôl i faes parcio'r copa a'r ganolfan ymwelwyr.



A wyddoch chi?

Gallwch bennu beth yw oed gafr trwy gyfrif y cylchoedd dwfn ar ei gyrn, yn yr un modd y byddwch, efallai, yn pennu oed coeden.

Parhewch i fyny'r bryn ar hyd Cylchdro'r Gogarth. Ar y ffordd edrychwch ar y tyllau a'r agennau yn y clogwyni. Maent yn darparu lle delfyddol i'r gigfran a'r cudyll coch. Wedyn byddwch yn mynd heibio i Ffynnon Gaseg ar ochr arall y ffordd. Cerddwch ychydig ymhellach, gan fynd heibio i giât nes cyrraedd bwch yn y wal. Cerddwch trwy'r bwch a dilynwch y cyfeirbwynt i Arhosfan 4.



Gwylogod

ARHOSFAN 4:

Talwch sylw i'r rhybudd ger y cyfeirbwynt! Rydych rŵan yn sefyll uwchben wyneb clogwyn sydd wedi ei orchuddio ag adar y môr pob gwanwyn a haf. Yr adeg hon o'r flwyddyn daw cannoedd o wylanod coesddu, llursod a gwylogod i nythu ar y silffoedd cul sydd ar y clogwyni. Nid yw gwylogod yn nythu ar wyneb y clogwyn ac yn lle hynny maent yn dodwy eu hwyau yn syth ar y silffoedd o graig. Mae siâp hirgrwn y wya yn eu hatal rhag rowlio dros ymyl y clogwyn i'r môr. Mae gan bob un o wya'u'r gwylog batrwm unigryw sy'n helpu'r oedolion i adnabod eu hwyau eu hunain ymysg y cannoedd sy'n cael eu dodwy yma bob blwyddyn.

Peidiwch â cheisio dringo'r clogwyni hyn. Maent yn beryglus iawn ac mae'r adar y môr sy'n bridio yma wedi eu diogelu trwy gyfraith yn ystod y tymor bridio.



A wyddoch chi?

Hefyd, gallwch weld Adar drycin y graig yn yr ardal hon. Mae gan yr adar hyn diwbiau ar ben eu pigau sy'n cael gwared â halen gormodol o'u cyrff oherwydd eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar y môr.



A wyddoch chi?

Mae gwallt y forwyn yn cael ei enw oherwydd mae'r sborau o dan y dail yr un siâp â duwg. Felly, roedd yn cael ei ddefnyddio i drin afiechydon y dduwg yn y canol oesoedd.

Llwybr B

Ewch heibio'r maes parcio tua'r chwith. Dilynwch yr arwydd cyfeirio i fyny at gornel y wal a throwch i'r chwith yma. Cerddwch ar hyd y wal, gan ei chadw ar y dde, ac anwybyddwch unrhyw lwybrau eraill sy'n arwain i ffwrdd o'r wal. Pan rydych yn cyrraedd cornel nesaf y wal edrychwch ymlaen a thua'r chwith byddwch yn gweld Arhosfan 6.



Tinwen y Garn

ARHOSFAN 6:

Un aderyn sy'n bwyta'r pryfed yn y glaswelltir byr sydd yma yw'r tinwen y garn. Gellir adnabod y tinwen y garn yn syth oherwydd y gwyn ar ei ben ôl rydych yn ei weld wrth iddo hedfan heibio. Nid yw'r tinwen y garn yn trigo ar y Gogarth ond mae'n ymwelydd sy'n dod i'r Gogarth i fridio ac mae'n aros rhwng mis Ebrill a mis Medi.

Gelwir y creigiau sydd wedi eu gwasgaru dros y pentir hwn yn feini dyfod a chawsant eu gadael ar ôl pan doddodd rhewlifau o'r oes iâ diwethaf. Os ydych yn edrych yn agosach ar rai o'r creigiau mwy byddwch yn sylwi bod blodau gwyllt a phlanhigion bach yn llwyddo i dyfu yma. Hyd yn oed ar y pridd tenau a sych yma byddwch, efallai, yn gallu gweld corrosyn lledlwyd a them gwyllt yn blodeuo rhwng mis Mai a mis Awst.



A wyddoch chi?

Mae'r persawr a'r neithdar a gynhyrchir gan deim gwyllt yn denu gwenyn a phryfed eraill, ac roedd cred unwaith eu bod yn denu tylwyth teg hefyd.

Allwedd | Key

Parc Gwledig Country Park	Tref Town	Toileddau Toilets
Môr Sea	Adeiladau Buildings	Safleoedd Picnic Picnic Sites
Tywod Sand	Ffyddd Roads	Llunlaeth Refreshments
Coed Trees	Trac Track	Ffôn Argyfwng Emergency Telephone
Caeau Fields	Taith B Route B	Canolfan Ymweliwyr Visitor Centre
	Taith A Route A	Tramffordd Tramway
	Car Cabl Cable Car	Parcio Parking
	WC	i

Yr Hen Oleudy
The Old Lighthouse

Rest & Be
Thankrui Café

Ffynnon
Gaseg
Mare's Well

Ffynnon
Llety Fadoc
Roman Well

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
Fferm
Parc
Farm

Pen-y-Gwylfryn
Summit

Eglwys Tudno Sant
St. Tudno's Church

Chwarel yr Esgob
Bishop's Quarry

Mwyngloddiau Copr
Copper Mines

Gorsaf Hannerffordd
Halfway Station

Gerddi Haulfre
Haulfre Gardens

Gorsaf Tramffordd
Victoria
Tram Station

Pen y
Dinas
Happy Valley

Schio Llandudno
Ski Llandudno

Y Fach
Happy Valley

Tollborth
Toll Gate


Gorsaf Car Cebi
Cable Car Station

LLANDUDNO

500m

1km

© Hawffaint y Goron, Cedwir pob hawl;
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380, 2010
© Crown copyright. All rights reserved.
Conwy County Borough Council 100023380, 2010



Dilynwch yr arwyddion cyfeirio ar hyd y llwybr glaswellt i Arhosfan 7.

ARHOSFAN 7:

Mae'r blodau gwyllt a geir yn yr ardaloedd hyn o rostir a glaswelltir yn denu sawl math o löyn byw, Mae un ar hugain o wahanol rywogaethau o löynnod byw wedi eu cofnodi ar y Gogarth, gan gynnwys enghreifftiau prin o glöyn llwyd a'r glesyn serenog. Mae'r glöynnod byw hyn wedi datblygu nodweddion sy'n eu galluogi i fyw yn llwyddiannus ar y Gogarth.



Glesyn Serenog

Mae'r glesyn serenog yn löyn byw bach iawn ond mae'n ddeniadol iawn hefyd. Mae'r gwryw gyda glas ar ymyl uchaf ei adenydd ac mae'r ymyl is gyda rhes o smotiau arian ar yr ymylon allanol. Mae gan y fenyw farciau tywyllach ar ei adenydd uchaf ond mae'r smotiau sy'n rhoi'r enw i'r glöyn byw yn bresennol yma hefyd.

Mae glöyn llwyd yn arbenigwr cuddliwio sy'n tynnu ei flaen adenydd tu ôl i'w adenydd ôl cyd-weddu gyda'r creigiau a'r pridd mae'n gorffwysu arnynt.

Dilynwch y trac heibio maes parcio wedi'i darmacio ar waelod y llethr glaswelltog ar y chwith. Gadewch y trac ger yr arwydd cyfeirio ac ewch i fynyr allt at Arhosfan 9.



Yr olygfa i Drwyn y Fuwch

ARHOSFAN 9:

Arhoswch ac edrychwch ar yr olygfa o fan hyn. Y tu ôl i chi mae'r piler triongli sy'n nodi copa'r Gogarth sy'n codi 207 metr (679 troedfedd) uwchlaw lefel y môr.

Os ydych yn cerdded ychydig ymhellach i fynyr allt, ar ochr bellaf Bae Llandudno byddwch yn gallu gweld Trwyn y Fuwch sy'n gartref i heidiau mawr o fulfrain. Mae mulfrain yn adar mawr a gellir eu gweld yn aml yn sefyll ar greigiau yn sychu eu hadenydd. Mae hyn oherwydd nad yw plu'r mulfrain yn dal dŵr yn gyfan gwbl.

Yn y glaswelltir o gwmpas siafftau'r cloddfeydd hyn byddwch yn gallu gweld clustog Fair yn gorchuddio'r ardal. Chwiliwch am glympiau sy'n tyfu'n isel o ddail tew gwyrdd ddu a phennau o flodau pinc rhosyn rhwng mis Mai a mis Gorffennaf. Rhoddir yr enw Saesneg 'thriff' ar y planhigyn clustog Fair oherwydd ei fod yn ffynnu a'i ddail yn wyrdd drwy gydol y flwyddyn.



A wyddoch chi?


Yn Saesneg, gelwir y graig rydych yn sefyll wrth ei hymyl yn Free Trade Loaf oherwydd mae'n debyg i'r hen dorth cob bach. Mae 'Free trade' yn cyfeirio at yr amser a fu pan fyddai pobl yn cyfarfod yma i daro bargaen.



A wyddoch chi?

Mewn rhai ardaloedd o Tsieina, mae pysgotwyr yn defnyddio dawn y fulfrain i ddal pysgod ac wedi hyfforddi'r adar i ddal pysgod ar eu cyfer.

Edrych tua Eglwys Tudno Sant gan Ffynnon Llety Fadoc



Rŵan, ewch ar hyd y trac o'ch blaen. Cerddwch o amgylch y giât ar y trac ac ewch i Arhosfan 8.

ARHOSFAN 8:

Os ydych yn edrych tua'r dde byddwch yn gweld Ffynnon Llety Fadoc wedi'i lleoli yn y wal hon. Mae hwn yn un o nifer o ffynhonnau ar y Gogarth, yr unig darddiad o ddŵr ffres naturiol sydd yma. Sylwch ar y tir gwlyb lle mae'r ffynnon yn codi ar ochr arall y trac. Mae'r manau llawn dŵr hyn yn ffurfio dyfrannau pwysig ar gyfer bywyd gwyllt brodorol y Gogarth. Nid yw nifer o'r ffynhonnau hyn yn sychu hyd yn oed yng nghanol yr haf. Hefyd, mae'r ffynhonnau ar y Gogarth yn bwysig ar gyfer infertebratau a phryfed.

Mae'r ardal o gwmpas y ffynnon hon hefyd yn dir bwyta a bridio pwysig ar gyfer glöyn byw'r brith gwyrdd, sy'n hedfan rhwng mis Gorffennaf a mis Awst. Daw enw'r glöyn byw hwn o'r lliw gwyrdd ar ymyl isaf ei adenydd.



A wyddoch chi?

Mae lindys y Brith Gwyrdd yn byw ar Fioledau ac Ysgall sy'n tyfu yn y glaswelltir calchfaen sydd o gwmpas.

Ewch i fynyr allt heibio i Adeilad y Car Cebel ac ewch heibio i gornel Adeilad y Copa. Ewch tua'r maes parcio, ond cyn i chi gyrraedd ewch trwy'r giât metel ar y chwith i'r ardd flodau gwyllt. Mae arhosfan olaf y llwybr natur yn yr ardd.

Giât i'r Ardd Blodau Gwyllt



ARHOSFAN 10:

Mae'r ardd flodau gwyllt yn cynnwys dim ond llong llaw o'r planhigion a blodau gwyllt y gellir eu darganfod yn tyfu ar y Gogarth. Yn haf, sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y rhain a'r planhigion rydych wedi eu gweld ar eich taith gerdded. Mae'r blodau gwyllt yn yr ardd yn ymddangos yn llawer talach a chryfach oherwydd eu bod wedi'u diogelu rhag anifeiliaid sy'n pori ac wedi'u cysgodi rhag y tywydd gan furiau'r ardd. Mae'r paneli arddangos yn yr ardd yn egluro mwy am y planhigion sydd yma.

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ar agor yn ddyddiol rhwng mis Mawrth a mis Hydref, a bydd yn dweud mwy wrthyfch am fywyd gwyllt, daeareg, hanes a'r gwaith o reoli Parc Gwledig y Gogarth.



Os ydych yn dymuno dysgu mwy am y Gogarth cewch gopi o lyfryn 'Darganfod y Gogarth' neu lyfryn 'Llwybrau Hanesyddol' o'r siop bywyd gwyllt yng Nghanolfan Ymwelwyr y Gogarth neu'r Ganolfan Ymwelwyr yn Llandudno.



I fod yn Dditectif Llwybr Natur ac i weld beth rydych yn ei ddarganfod ar eich taith gerdded - ticiwch y cylchoedd a chewch bwynt am bob peth rydych yn ei ddarganfod.



Crogedyf



Cor-rosyn cyffredin



Ffwng



Clustog Fair



Glöyn llwyd



Brân goesgoch



Pig yr aran ruddgoch



Gafr Cashmir



Mantell dramor



Cacwn



Gwyfyn bwrned chwe smotyn



Cwningen



Cudyll coch



Brych y coed

Gwylan y penwaig



Llurs



Gwyfyn rhosyn y graig



SUT WNAETHOCH CHI?

15-17	<input type="checkbox"/>	Gwaith ditectif da iawn
10-14	<input type="checkbox"/>	Gwaith sylwi ar natur da iawn
0-9	<input type="checkbox"/>	Mae'n rhaid bod yr anifeiliaid a'r planhigion yn cuddio'n dda heddiw